**ADRODDIAD BLYNYDDOL CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL HENBLAS (2022-2023)**

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Corff Llywodraethol Ysgol Henblas sy'n unol â gofynion Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru).

**Nid ydym yn bwriadu cynnal cyfarfod penodol i drafod yr adroddiad hwn os na fydd nifer sylweddol o rieni yn gwneud cais. Os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r fath a wnewch chi nodi hynny drwy ebost erbyn 08/03/2024.** Fel arall, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen am lwyddiannau'r ysgol eleni eto. Mae croeso i chi gysylltu gyda chadeirydd y corff llywodraethol neu'r pennaeth os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad.

## CYNNWYS

1. Neges gan y Cadeirydd Tudalen 3

2. Gwybodaeth am yr ysgol a'r Corff Llywodraethu Tudalen 4

3. Cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn Tudalen 8

4. Materion cyllidol Tudalen 12

5. Cynllun datblygu ysgol Tudalen 13

6. Datblygiadau Cwricwlwm/Gweithgareddau Amrywiol Tudalen 14

## 1. Neges gan y Cadeirydd

Mae’n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Ysgol Henblas 2022-2023 i chi ar ran Corff Llywodraethu’r ysgol. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno trosolwg o brif weithgareddau a chyflawniadau’r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o dan arweinaid Mr Jones, y Pennaeth ac aelodau o staff hynod ymroddgar, mae’r ysgol wedi parhau i ffynnu a chyrraedd y safonau uchel a osodwyd. Rydym bob amser yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion, ac yn parhau i werthfawrogi pob aelod o staff, y rhai sydd yn addysgu a’r rhai nad ydynt yn addysgu, am eu gwaith caled a’u hymroddiad wrth sicrhau bod y disgyblion yn profi amgylchedd dysgu arbennig sydd hefyd yn hwyl ac yn bleserus.

Mae addysg yn ymdrech tîm rhwng rhieni, llywodraethwyr, athrawon a disgyblion ac rydym yn gwerthfawrogi eich cymorth, ymglymiad a’ch brwdfrydedd tuag at fywyd yr ysgol ac addysg eich plant. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi ac yn diolch i aelodau’r Cymdeithas Rhieni Athrawon am eu hymrwymiad, a’u hymdrechion diflino wrth gefnogi cymuned yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd gwahanol.

Mae llwyddiant yr ysgol o ganlyniad i’r gwaith tîm gwych sydd yn digwydd rhwng yr holl staff, disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a’r gymuned ehangach. Mae'r cwricwlwm newydd i Gymru yn golygu fod cryn newidiadau cyffroes yn digwydd ym myd addysg ac fel ysgol yr ydym yn hyderus ein bod yn gallu ymateb a diwallu’r gofynion hyn.

Byddwn yn parhau felly i sicrhau fod pob disgybl yma yn cael "gwreiddiau i dyfu, adennydd i hedfan”.

Eleri Stephen

## 2. GWYBODAETH AM YR YSGOL A'R CORFF LLYWODRAETHU 2022-2023

| | |
|---|---|
| Cadeirydd Y Corff Llywodraethu | Mrs Eleri Stphen |
| Is Gadeirydd | Mrs Nia Allen |
| Pennaeth | Mr Huw Jones |
| Clerc i'r Corff Llywodraethu | Mrs Margaret Williams |

**Llywodraethwyr – Rhieni**
Mrs Eleri Stephen
Mrs Sioned McGuigan
Dr. Nia Allen
Mr Gethin Thomas

**Llywodraethwyr – Cyfethol aelod cymunedol**
Mrs Natalie Owen

**Llywodraethwyr - Staff**
Mrs Manon Roberts
Mr Huw Edward Jones

**Llywodraethwyr – Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**
Cynghorydd Geraint Bebb
Mr Paul Roberts

**Llywodraethwyr – Cyngor Cymuned**
Sioned Williams

**<u>STAFFIO MEDI 2022:</u>**
Meithrin/Derbyn/: Mrs Sian Herbert
Blwyddyn 1 2 2: Mrs Manon Roberts
Blwyddyn 3 a 4: Mrs Heather Williams
Blwyddyn 5 a 6: Mr Huw Jones/Mrs Legge
Athrawes CPA: Mrs Sue Legge
Cydlynydd ADY: Mrs Roberts

Cynorthwywyr / Ymyrraethau Dysgu: Mrs Diane Edwards, Mrs Nia Jones, Mrs Sharon Barton, Mrs Rozena Hughes, Mrs Glenys Williams, Mrs Paula Harvey
Staff y gegin: Miss Sian Pritchard ac Mrs Tracy Jones
Gofalwr: Mr Barry Jones
Goruchwylwraig amser cinio: Ms Pat Williams
Hyfforddeion offerynnol: Ali White, Elen Keen, Tomos Owen, Euron Jones

| Enw | Rôl | Cyfrifoldeb | Cyfrifoldeb maes dysgu a phrofiad |
|---|---|---|---|
| Huw Edward Jones | Pennaeth<br>Athro | Strategol ysgol gyfan<br>Diogelu<br>Addysgu a dysgu<br>Rheoli perfformiad<br>Llythrennedd<br>Cyngor Ysgol | Celfyddydau mynegiannol<br>Mathemateg<br>Iaith |
| Manon Roberts | Athrawes CS | ADY<br>Diogelu | Gwyddoniaeth<br>Mathemateg<br>Iaith |
| Sue Legge | Athrawes CA2/CPA | Lles<br>Grwp Iach | Dyniaethau<br>Iechyd a lles<br>Ceflyddydau mynegiannol |
| Heather Williams | Athrawes CA2 | Mathemateg | Gwyddoniaeth<br>Iechyd a lles<br>Mathemateg |
| Sian Herbert | Athrawes CS | Digidol<br>Gwyddoniaeth<br>Grwp Eco | Gwyddoniaeth<br>Dyniaethau<br>Iechyd a lles |
| Sharon Barton | **Cymhorthydd** | Cefnogi disgybl ADY | |
| Glenys Williams | **Cymhorthydd** | Cefnogi disgybl ADY | |
| Nia Jones | **Cymhorthydd** | Cefnogi disgyblion y dosbarth | |
| Rozena Hughes | **Cymhorthydd** | Targedu disgyblion | |
| Paula Harvey | **Cymhorthydd** | Cefnogi disgybl ADY | |
| Diane Edwards | **Cymhorthydd** | Cefnogi disgyblion y dosbarth | |

**NIFEROEDD YM MHOB DOSBARTH MEDI 2022 (Cyfanswm y disgyblion Medi 2022 = 105):**
Meithrin a Derbyn: 29
Blwyddyn 1 a 2: 19
Blwyddyn 3 a 4: 27
Blwyddyn 5 a 6: 30

**Cefndir ieithyddol y plant – Mai 2023:**

| Oedran | Sy'n siarad Cymraeg gartref | Nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl yn y Gymraeg | Sy'n siarad Cymraeg ond nid yn rhugl | Na allant siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| **Bl 5 a 6** | 22 | 5 | 3 | 0 |
| **Bl 3 a 4** | 23 | 2 | 2 | 0 |
| **Bl 2** | 5 | 3 | 0 | 0 |
| **Bl1** | 8 | 1 | 2 | 0 |
| **Bl 0** | 10 | 2 | 4 | 0 |
| **Meithrin** | 8 | 0 | 2 | 3 |
| Cyfanswm | 76 | 13 | 13 | 3 |
| **Canran** | 72 | 12 | 12 | 3 |

**Trosglwyddo i ysgol gyfun:**
Symudodd 13/14 disgybl i'r ysgol gyfun gyfagos sef Ysgol Gyfun Llangefni.

**Hyfforddiant staff 2022-2023:**
Yn ystod y flwyddyn mae'r staff wedi ymwneud a llawer o hyfforddiant yn ymwneud a'r cwricwlwm er mwyn derbyn datblygiad proffesiynol.

## Gwyliau ysgol 2022-2023

**TYMOR:**
**Hydref 2022**
1 Medi 2022 - 23 Rhagfyr 2022
**Gwanwyn 2023**
9 Ionawr 2023 - 31 Mawrth 2023
**Haf 2023**
17 Ebrill 2023 - 20 Gorffennaf 2023

Disgyblion yn dychwelyd i’r ysgol ddydd Gwener, 2 Medi, 2022.

**GWYLIAU:**
31 Hydref - 4 Tachwedd 2022 (Hanner-Tymor)
26 Rhagfyr 2022 - 6 Ionawr 2023 (Gwyliau’r Nadolig)
20 - 24 Chwefror 2023 (Hanner-Tymor)
3 - 14 Ebrill 2023 (Gwyliau’r Pasg)
1 Mai 2023 (Calan Mai)
29 Mai - 2 Mehefin 2023 (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst 2023 (Gwyliau’r Haf)

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:
MEDI 2022 22
HYDREF 2022 20
TACHWEDD 2022 18
RHAGFYR 2022 17
IONAWR 2023 17
CHWEFROR 2023 15
MAWRTH 2023 23
EBRILL 2023 10
MAI 2023 19
MEHEFIN 2023 20
GORFFENNAF 2023 14 ---- 195

**HMS:**
Medi 1 2022
Medi 2 2022
Tachwedd 7 2022
Chwefror 17 2023
Mehefin 5 2023
Mehefin 23 2023

## 3.Crynodeb o gyfarfodydd y corff 2022-2023:

**Medi 28 2022**

1. Croesawu a chadarnhau presenoldeb
Croesawyd Geraint Bebb i'w gyfarfod cyntaf fel cynrychiolydd yr AALI.
2. Ethol Cadeirydd
Enwebwyd ES gan MW ac eilwyd gan STh.
3. Ethol Is-gadeirydd
Enwebwyd NA gan ES ac eilwyd gan HJ.
NA yn is-gadeirydd
4. Penodi llywodraethwr dynodedig anghenion dysgu ychwanegol
ES i barhau
5. Penodi llywodraethwr dynodedig amddiffyn plant
ES i barhau
6. Penodi llywodraethwr dynodedig cydraddoldeb
PR i barhau
7. Penodi llywodraethwyr dynodedig iechyd, diogelwch ac adeiladau
Enwebwyd PR/STh/HJ
8. Penodi llywodraethwr dynodedig addysg cydberthasedd a rhywioldeb
Enwebwyd ES
9. Pwyllgorau statudol
Parhau efo'r un aelodau ac i lenwi unrhyw seddi gwag.
10. Diweddaru cofrestr buddiannau llywodraethwyr
Pawb i ddiweddaru'r ffurflen sydd wedi cael ei roi ar safle diogel y llywodraethwyr
11. Hyfforddiant Llywodraethwyr
Cafwyd trafodaeth ar y rhaglen ar gyfer 2022/23 ac annogwyd llywodraethwyr i fynychu.
12. Taflenni Cofrestru Troseddol
13. Cód ymddygiad llywodraethwyr
Cafwyd cais i pawb edrych drosto.
14. Materion presennol
i) dychwelyd i'r ysgol
Cafwyd trosolwg o'r niferoedd a chytunwyd eu bod yn gadarnhaol dros ben.
ii) Polisi diogelu
Wedi mabwysiadu
iii) Ffrám chwarae ar yr iard
Cafwyd diweddariad gan nodi fod 2 gwmni wedi bod yn gweld yr ysgol ac wedi rhoi amcan bris: Pentagon Play a Sovereign Play. Cafwyd trafodaeth ar y ddau opsiwn gan gytuno'n gryf fod angen rhywbeth i'r plant hyn ar yr iard. Cytunwyd i fynd efo Sovereign Play ond HJ angen gwirio os oes gwarant efo'r offer.
iv) Holiadur Llywodraethwyr
Aelodau i'w lenwi

**Tachwedd 16**

1. Croesawyd Gwenno Jones ynghyd ac aelodau'r Cyngor Ysgol i'r cyfarfod.
2. Croesawyd aelodau'r Cyngor Ysgol i'r cyfarfod a chafwyd cyflwyniadau ganddynt ar y gwaith maent wedi bod yn ei wneud yn ystod y tymor. Diolchwyd iddynt am fynychu.
3. Croesawyd GJ i'r cyfarfod a cafwyd cyflwyniad ganddi ar ról y llywodraethwr fel "Cyfaill Beirniadol". Cafwyd canmoliaeth ganddi am waith y llywodraethwyr dros y blynyddoedd diwethaf.
4. Cafwyd adroddiad trylwyr gan HEJ ar sefyllfa bresennol yr ysgol gan nodi fod 105 ar y gofrestr bellach. Annogwyd pawb i gael golwg ar wefan yr ysgol.
5. Asesiad Athro Haf 2022
Cafwyd trosolwg o'r drefn newydd gan edrych ar ganfyddiadau data haf 2022. Cytunwyd fod y data'n ffafriol. Eglurwyd bydd strwythur adroddiadau diwedd blwyddyn yn newid o hyn

allan a nodwyd fod angen penderfynu ar fformat. HEJ i weithredu ar fformat newydd i'r adroddiad diwedd blwyddyn
6.Eglurwyd bydd archwiliad iechyd a diogelwch yn cael ei gario allan 29.11.22 a bydd HEJ yn llunio adroddiad o'r canfyddiadau. Tynnwyd sylw'r aelodau i'r trosolwg o'r asesiad tán sydd yn y ffolder llywodraethwyr.
7. Cafwyd trosolwg o'r blaenoriaethau ar gyfer 2022-23:
Blaenoriaethau ysgol:

- darllen
- llafaredd
- rhesymu
- mathemateg
- ADY

Blaenoriaethau ADY: cafwyd trosolwg gan MR gan nodi eu bod wedi cael eu mireinio ychydig
Blaenoriaethau dalgylchol:

- addysg ddigidol
- ADY

8. Holiadur corff llywodraethol Hydref 2022. Cafwyd trosolwg o'r ymatebion. Mynegwyd pryder nad oes ymateb yn cael ei dderbyn ar ól i'r llywodraethwyr gofrestru ar gyfer hyfforddiant. Cytunwyd fod angen dilyn hyn i fyny.
9. Tynnwyd sylw'r aelodau i'r rhestr polisiau oedd yn cael eu hadolygu.
10. Cyllid. Nodwyd fod y ffrám ddringo wedi cael ei harchebu ac fe fydd yn cael ei gosod Ionawr 2023.
11. Unrhyw fater arall
Ffair Nadolig: nodwyd y cynhelir y ffair 1.12.22
Digwyddiad Nadolig neuadd yr henoed: cynhelir digwyddiad yn y neuadd a gofynwyd os fyddai'r plant yn gallu dod i ganu Rhagfyr 10ed.

**Mawrth 30**

1. Addysg bersonol a Chydberthnasedd
Cafwyd cyflwyniad gan SL ar y Cód Addysg, cydberthnasedd a rhywioldeb. Nodwyd nad oes gan rieni hawl i optio plant allan o'r gwersi hyn. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ddanfon y ddogfen allan i rieni ar ól hanner tymor.
2. Cafwyd trosolwg o'r polisiau ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w mabwysiadu.
Polisi Addysg Cydberthnasedd a Rhywioldeb: i ddanfon allan i rieni.
3.Adroddwyd fod awdit wedi cael ei gario allan 29.11.22 a cafwyd trosolwg o'r cynnwys.
4. Adroddiad ADY: Nodwyd fod y cyfarfod blynyddol gyda swyddogion ansawdd CSYM wedi ei gynnal 9.2.23 ac fod canmoliaeth mawr wedi bod i waith yr ysgol yn y maes ADY.
5. Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa ynglyn á thendr y ddarpariaeth yn y Caban. Eglurwyd fod Siwgr Plwm wedi ennill y tendr ac yn darparu'r ysgol feithrin a'r clwb gofal erbyn hyn.
6. Nodwyd fod absenoldeb a phresenoldeb yn gryf iawn ar agenda'r Cyngor ac mae gofyn i'r ysgol ei fonitro'n rheolaidd. Eglurwyd fod y swyddog lles yn cydweithio efo'r ysgol yn y maes hwn.
7. Cyllid:

- Yr ysgol yn wynebu diffyg dros y blynyddoedd nesaf o tua £47,960
- gallu cynnal y staffio am eleni
- defnyddio £40k arian wrth gefn
- balansau am eleni i weld yn iawn
- posibilrwydd o dorriadau'n 2024/25
- grant Carlam yn parhau am 3 blynedd arall

8. Panel Safonau 30.11.22: Cafwyd trosolwg o'r cyfarfod.
9.Unrhyw fater arall: Strategaeth Moderneiddio Cymunedol Dysgu a Datblygu'r Gymraeg: tynnwyd sylw'r aelodau at yr ymgynghoriad yma fydd yn agor 31.3.23 gan ddod i ben 18.5.23

Cyfarfod llywodraethwyr dalgylchol: Nodwyd y cynhelir cyfarfod i holl lywodraethwyr dalgylch Cefni nos Fawrth 20 Mehefin 2023 5,30-7yh yn Siambr y Cyngor Sir, Llangefni
Diolchwyd i MR am gymryd yr awennau drosodd yn yr ysgol yn ystod absenoldeb HEJ,

**Mai 25**

1. Cafwyd cyflwyniad gan Elin Williams ar GDPR. Eglurodd fod yr ysgol, sydd yn cynnwys y llywodraethwyr, yn rheolydd data ac eglurodd beth yw oblygidau hyn. Cafwyd trosolwg o'r atebolrwydd gan bwysleisio pwysigrwydd cynnal trafodaethau rheolaidd yn y cyfarfodydd llywodraethwyr.
2. Rhannwyd y llywodraethwyr yn 3 grwp i edrych ar waith yn y 3 maes blaenoriaeth: darllen Mathemateg ac ADY. Cafwyd trafodaethau yn dilyn hyn ac roedd canmoliaeth uchel i'r gwaith.
3. Cafwyd trosolwg gan HEJ o'r hyn sydd wedi bod yn cymryd lle yn yr ysgol dros yr wythnosau diwethaf. Tynnwyd sylw'r llywodraethwyr at y ffaith fod rhagolygon mynediad 2023/24 yn is na'r disgwyl a bydd nifer o oblygiadau'n deillio o hyn e.e. gostwng yn y cyllid. Ar gyfer Medi 2023 bydd yr ysgol yn parhau i gynnal 4 dosbarth a chafwyd trosolwg o'r drefn staffio. Roedd yn galonogol gweld fod 91% o rieni wedi mynychu'r noson rieni'n ddiweddar.
4. Cafwyd trosolwg o adroddiad diweddaraf Gwenno Jones (GwE) gan dynnu sylw'r llywodraethwyr at y prif bwyntiau.
5.Rhoddwyd trosolwg o'r ymgynghoriad diweddar ar y Strategaeth Moderneiddio ym Món gan HJ a chafwyd trafodaeth ar pa effaith fydd yn cael ar yr ysgolion.
6. Nododd HJ ei fod wedi cael gwybod na fydd yr iard yn cael ei "tharmacio" dros yr haf. HJ i drefnu taith iechyd a dioglewch o amglych yr ysgol efo'r llywodraethwyr perthnasol.
7.Cafwyd trosolwg o'r "dashfwrdd grantiau" a'r gwariant sydd yn cymryd lle. Nodwyd fod yr ysgol wedi derbyn "grant gwella addysg" sydd yn cydfynd a'r blaenoriaethau.
Cyllid ysgol 23/24: cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gyfredol a cadarnhawyd fod cyllideb 23/24 bellach wed cael ei mabwysiadu.
8. UFA: Atgoffwyd yr aelodau am y cyfarfod dalgylchol a gynhelir nos Fawrth 20 Mehefin 2023 am 5.30yh yn Siambr y Cyngor Sir, Llangefni

**Gorffennaf 12**

1. Croesawyd aelodau'r Cyngor Ysgol i'r cyfarfod a chafwyd trosolwg eglur ganddynt o'r gwaith maent wedi bod yn ei wneud yn ystod y flwyddyn.
2. Cyfarfod Llywodraethwyr Dalgychol 20.6.23
Cafwyd trosolwg o'r trafodaethau a gafwyd yn y cyfarfod a diolchwyd i'r llywodraethwyr a fynychodd.
3. Cafwyd trosolwg a thrafodaeth ar flaenoriaethau 22/23:
Darllen: prynhawn agored i rieni wedi ei drefnu ar gyfer 20/9/23 i drafod sgiliau darllen efo plant.
Rhesymu: cafwyd trosolwg o'r daith ddysgu rhesymu 5/6/23.
4. Cafwyd trosolwg o'r blaenoriaethau ar gyfer 23/24 ac eglurwyd y drefn o hunanwerthuso i weld beth ydi'r blaenoriaethau posibl. Cafwyd trafodaeth a chytunwyd ei bod yn bwysig cyd-weithio efo'r gymuned a busnesau lleol. Cytunwyd i wahodd Stuart Pritchard a cyfarfod tymor yr hydref i drafod y fframwaith hunan arfarnu. Cytunwyd i gael llywodraethwyr dynodedig ar gyfer y blaenoriaethau:

- Siarter Iaith (SW/SMcG)
- Llinyn dinasyddiaeth y ffranwaith cymhwyswdd digidol (PR/ST)
- Presenoldeb (ES/GB)
- Adborth ar waith disgybion (NA/NO)

Cafwyd cais i'r llywodraethwyr roi eu sylwadau ar y blaenoriaethau.
5. Dosbarthwyd y polisiau o flaen llaw a chafwyd trafodaeth yn ystod y cyfarfod. Cytunwyd i'w derbyn.

6. Cafwyd trafodaeth ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth isod ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w derbyn.

- Gwasanaeth Addysg, oriel, amgueddfa ac archifdy
- gwasanaeth llyfrgell
- cynllun salwch
- cyllid

7. Cyllid
Cafwyd trosolwg o'r sefyllfa gyfredol:

- HEJ wedi llenwi'r holiadur balansau
- gwersi offerynnol i aros yr un góst o £160 y flwyddyn.
- Cronfa ysgol: GO wedi cynnal awdit

8. Nodwyd fod HEJ, PR,ST wedi cynnal taith Iechyd a Diogelwch o amgylch yr ysgol a chafwyd trosolwg o'r canfyddiadau.
9. Diolchwyd i'r llywodraethwyr am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

## 4. Materion Cyllidol

**Gweler cofndoion o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn am fanylion pellach.**

**Adroddiad cyfrifon terfynol Ysgol Henblas 2021-22:**

**Management Reports** — Adroddiad SIMS Ysgolion

*Budget name:* Original — *Cyfnod:* 12 — *Blwyddyn:* 2022

Cliciwch yma i rhedeg yr ymholiad

| AA026 - Llangristiolus | Cyllideb Blwyddyn Llawn | Gwariant Gwirioneddol y Cyfnod | Gwariant Blyddyn Hyd Yma | Ymrwymiad Blwyddyn Hyd Yma | Gwirioneddol ac Ymrwymiad | Cyllideb Blwyddyn Hyd Yma | Amrywiant Blwyddyn Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Athrawon | 300,770.00 | 30,034.53 | 324,034.09 | 0.00 | 324,034.09 | 300,770.00 | 23,264.09 |
| Llanw | 4,890.00 | 14,260.18 | 45,089.51 | 0.00 | 45,089.51 | 4,890.00 | 40,199.51 |
| Staff Grant | 11,500.00 | 1,165.06 | 12,278.17 | 0.00 | 12,278.17 | 11,500.00 | 778.17 |
| Ategol Misol | 52,760.00 | 4,410.23 | 53,460.58 | 0.00 | 53,460.58 | 52,760.00 | 700.58 |
| Ategol ADY | 49,090.00 | 5,682.10 | 48,132.22 | 0.00 | 48,132.22 | 49,090.00 | (957.78) |
| Staff Gweinyddol | 6,970.00 | 581.87 | 7,001.25 | 0.00 | 7,001.25 | 6,970.00 | 31.25 |
| Ategol Wythnosol | 8,390.00 | 655.57 | 7,869.40 | 0.00 | 7,869.40 | 8,390.00 | (520.60) |
| Hyfforddiant Staff | 0.00 | 0.00 | 327.50 | 0.00 | 327.50 | 0.00 | 327.50 |
| Premiwm Salwch ac hysbysebu | 11,700.00 | 640.00 | 11,620.00 | 0.00 | 11,620.00 | 11,700.00 | (80.00) |
| **Staffio** | 446,070.00 | 57,440.44 | 509,812.72 | 0.00 | 509,812.72 | 446,070.00 | 63,742.72 |
| Cynnal a Chadw | 9,650.00 | 0.00 | 6,964.45 | 0.00 | 6,964.45 | 9,650.00 | (2,685.55) |
| Cynnal a Chadw AT | 2,960.00 | 0.00 | 2,960.00 | 0.00 | 2,960.00 | 2,960.00 | 0.00 |
| Cytundeb Glanhau | 6,410.00 | 21.00 | 6,455.33 | 0.00 | 6,455.33 | 6,410.00 | 45.33 |
| Casglu Gwastraff | 590.00 | 58.24 | 570.47 | 0.00 | 570.47 | 590.00 | (19.53) |
| Deunydd Glanhau | 1,050.00 | 83.64 | 1,005.94 | 0.00 | 1,005.94 | 1,050.00 | (44.06) |
| Trethi | 9,100.00 | 0.00 | 9,095.00 | 0.00 | 9,095.00 | 9,100.00 | (5.00) |
| Costau Ynni Trydan | 5,920.00 | 1,244.70 | 5,924.39 | 0.00 | 5,924.39 | 5,920.00 | 4.39 |
| Costau Ynni Nwy/Olew | 4,330.00 | 767.92 | 4,333.91 | 0.00 | 4,333.91 | 4,330.00 | 3.91 |
| Costau Ynni Dwr | 1,760.00 | 0.00 | 1,760.65 | 0.00 | 1,760.65 | 1,760.00 | 0.65 |
| **Adeilad** | 41,770.00 | 2,175.50 | 39,090.14 | 0.00 | 39,090.14 | 41,770.00 | (2,679.86) |
| Lwfans y Pen | 6,110.00 | 320.57 | 22,591.61 | 0.00 | 22,591.61 | 6,110.00 | 16,481.61 |
| Gwasanaethau Allanol | 2,740.00 | 690.00 | 3,555.00 | 0.00 | 3,555.00 | 2,740.00 | 815.00 |
| Llungopiwyr | 0.00 | 526.41 | 2,683.23 | 0.00 | 2,683.23 | 0.00 | 2,683.23 |
| Cerddoriaeth | 1,480.00 | 612.00 | 3,510.00 | 0.00 | 3,510.00 | 1,480.00 | 2,030.00 |
| Cynnal | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Post | 50.00 | 0.00 | (4.60) | 0.00 | (4.60) | 50.00 | (54.60) |
| Teleffon | 450.00 | 0.00 | 881.52 | 0.00 | 881.52 | 450.00 | 431.52 |
| Band Llydan | 2,120.00 | (305.37) | 1,814.63 | 0.00 | 1,814.63 | 2,120.00 | (305.37) |
| Cyfrifiaduron | 0.00 | 60.00 | 2,754.00 | 0.00 | 2,754.00 | 0.00 | 2,754.00 |
| Adnoddau Grant | 0.00 | 0.00 | 255.00 | 0.00 | 255.00 | 0.00 | 255.00 |
| **Cyflenwadau a Gwasanaethau** | 12,950.00 | 1,903.61 | 38,040.39 | 0.00 | 38,040.39 | 12,950.00 | 25,090.39 |
| Cyngor Ariannol | 2,760.00 | 0.00 | 2,760.00 | 0.00 | 2,760.00 | 2,760.00 | 0.00 |
| Gweinyddu Cynnal a Chadw | 650.00 | 0.00 | 650.00 | 0.00 | 650.00 | 650.00 | 0.00 |
| Prydau Ysgol | 51,190.00 | 0.00 | 51,190.00 | 0.00 | 51,190.00 | 51,190.00 | 0.00 |
| Taliadau ac Incwm | 1,560.00 | 0.00 | 1,560.00 | 0.00 | 1,560.00 | 1,560.00 | 0.00 |
| Personnel a Chyflogau | 7,370.00 | 0.00 | 7,370.00 | 0.00 | 7,370.00 | 7,370.00 | 0.00 |
| Data Disgyblion | 920.00 | 0.00 | 920.00 | 0.00 | 920.00 | 920.00 | 0.00 |

Cliciwch yma i rhedeg yr ymholiad

| AA026 - Llangristiolus | Cyllideb Blwyddyn Llawn | Gwariant Gwirioneddol y Cyfnod | Gwariant Blyddyn Hyd Yma | Ymrwymiad Blwyddyn Hyd Yma | Gwirioneddol ac Ymrwymiad | Cyllideb Blwyddyn Hyd Yma | Amrywiant Blwyddyn Hyd Yma |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddol Cyflenwi | 710.00 | 0.00 | 710.00 | 0.00 | 710.00 | 710.00 | 0.00 |
| Gweinyddol Salwch | 370.00 | 0.00 | 370.00 | 0.00 | 370.00 | 370.00 | 0.00 |
| ***Datganoli Pellach*** | 65,550.00 | 0.00 | 65,550.00 | 0.00 | 65,550.00 | 65,550.00 | 0.00 |
| Grant GAD | (11,500.00) | (2,844.88) | (11,500.00) | 0.00 | (11,500.00) | (11,500.00) | 0.00 |
| Incwm Grant Arall | (7,590.00) | (15,993.86) | (28,183.03) | 0.00 | (28,183.03) | (7,590.00) | (20,593.03) |
| Incwm Cerddoriaeth | 0.00 | (350.00) | (2,230.00) | 0.00 | (2,230.00) | 0.00 | (2,230.00) |
| Rhoddion | 0.00 | (15,625.00) | (17,850.00) | 0.00 | (17,850.00) | 0.00 | (17,850.00) |
| Llog Derbyniadwy | 0.00 | (1,626.00) | (1,626.00) | 0.00 | (1,626.00) | 0.00 | (1,626.00) |
| Incwm Cynllun Salwch | 0.00 | (10,584.91) | (41,697.96) | 0.00 | (41,697.96) | 0.00 | (41,697.96) |
| Incwm Arall | 0.00 | (600.00) | (2,558.08) | 0.00 | (2,558.08) | 0.00 | (2,558.08) |
| ***Incwm*** | (19,090.00) | (47,624.65) | (105,445.07) | 0.00 | (105,445.07) | (19,090.00) | (86,355.07) |
| Cyfraniad Arian Wrth Gefn | 97,860.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 97,860.00 | (97,860.00) |
| ***Cyfraniad Arian Wrth Gefn*** | 97,860.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 97,860.00 | (97,860.00) |
| ***AA026 Llangristiolus*** | 645,110.00 | 13,894.90 | 547,048.18 | 0.00 | 547,048.18 | 645,110.00 | (98,061.82) |
| ***Cyfanswm ar gyfer: AA026 Llangristiolus*** | 645,110.00 | 13,894.90 | 547,048.18 | 0.00 | 547,048.18 | 645,110.00 | (98,061.82) |
| ***Cyfanswm ar gyfer: AA026 Cost Centre (Primary Dim)*** | 645,110.00 | 13,894.90 | 547,048.18 | 0.00 | 547,048.18 | 645,110.00 | (98,061.82) |
| ***Cyfanswm:*** | 645,110.00 | 13,894.90 | 547,048.18 | 0.00 | 547,048.18 | 645,110.00 | (98,061.82) |

## 5. CYNLLUN DATBLYGU YSGOL

CYNLLUN GWELLA YSGOL HENBLAS – EDRYCH YN 0L AC I'R DYFODOL!

BLAENORIAETH 1 – Codi safonau darllen y Gymraeg ar draws yr ysgol.

BLAENORIAETH 2 – Gwella medrau codio ar draws yr ysgol

BLAENORIAETH 3 – Gweithredu gofynion y cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws yr ysgol

BLAENORIAETH 4 - Codi safonau rhesymu rhifyddol ar draws yr ysgol

Am wybodaeth bellach gweler y linc hwn:

http://ysgolhenblas.org/downloads/190723-ffgy_cy.pdf

http://ysgolhenblas.org/downloads/190723-ffgy_en.pdf

## 6. DATBLYGIADAU CWRICWLAIDD/GWEITHGAREDDAU AMRYWIOL

**Iaith yr ysgol:**
Ysgol Gymraeg yw Ysgol Henblas, sydd yn darparu addysg drwy gyfrwng y ddwy iaith. O flwyddyn 2 ymlaen fe gyflwynir Saesneg fel rhan o'r ddarpariaeth.

**Bwyd a Ffitrwydd (Hybu Bwyta a Byw yn Iach)**
Mae'r ysgol yn ymdrechu yn galed i hybu ffordd iach o fyw. Os danfonir bocs bwyd gyda'r disgyblion ar gyfer amser cinio gofynnir i'r rhieni gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac yn y blaen yn y bocs. Anogir y disgyblion i ddod â ffrwythau i'w bwyta yn ystod amser egwyl y bore.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn llaeth am ddim bob dydd. Eto, gan ddilyn ein polisi cadw'n iach, rydym yn sicrhau bod dŵr i'w yfed ar gael ar gyfer y disgyblion trwy'r dydd.

Paratoir cinio ardderchog i'n plant ac fe gafodd gydnabyddiaeth haeddiannol am hynny ac mae y nifer sydd yn cymryd cinio ysgol ymysg yr uchaf ar Ynys Mon.

Mae Mike Allen a Louise Martin (rhieni) yn cynnal sesiynau garddio rheolaidd gyda'r plant sydd yn hybu eu dealltwriaeth o daith bwyd o'r ardd i'r blat.

**Clybiau ar ol ysgol - chwaraeon**
Clybiau amrywiol:Rydym yn ddiolchgar am yr holl glybiau sydd yn Ysgol Henblas ar ol 3:15pm.
Bu'r clybiau Urdd, rygbi, Disney Playmaker, pelrwyd a phel droed yn boblogaidd iawn.
Diolch i'r rhieni a staff am gynnal y clybiau hyn.

**Cyswllt â'r gymuned:**
Apel banc bwyd - llwyddwyd i gasglu llawer iawn o nwyddau ar gyfer apel banc bwyd yn ystod mis Rhagfyr a daeth daeu aelod o'r gangen yng Nghaergybi i nol y nwyddau gyda diolch mawr.
Papur Bro - mae cyfraniadau misol i'r papur bro yn rhannu newyddion am yr ysgol.
Plant mewn angen - cefnogwyd yr ymgyrch eto eleni
Teams4U: Cludwyd yr holl focsus i Ysgol Llangefni yn ddiogel.
Siwgwr Plwm Henblas: mae cyswllt agos rhwng yr ysgol a Siwgwr Plwm Henblas ac rydym mewn cyswllt agos ynghylch ymgysylltu gyda'r gymuned er mwyn adnabod niferoedd fydd yn mynychu yn y dyfodol.

**Profiadau:**
Gweler y ffilm hon yn rhoi blas o fwrlwm y flwyddyn 2022-23:
https://youtu.be/0sn7bAOW97I

Am restr lawn o brofiadau gweler ein gwefan ysgol:
http://ysgolhenblas.org/newyddion.html

**Anghenion Addysgol Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Mae nifer o blant yn cael addysg anghenion addysgol arbennig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai plant anghenion arbennig penodol, anabledd corfforol neu allu neilltuol (Mwy Abl a Thalentog) sydd yn rhaid cael ei ymestyn. Gan ddefnyddio grant Carlam cyflogwyd dwy athrawes i dargedu a chynnal y grwpiau hyn. Ein nod yw ateb gofynion pob plentyn trwy gynllunio yn ofalus, defnyddio ystod o strategaethau gweledol, clywedol a chinesthetig sy'n galluogi dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn.
Mrs Manon Roberts yw cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022/2023 bu'r holl staff yn cyfrannu i'r gefnogaeth sydd ar bob disgybl ei angen. Mae'r

cynorthwywyr dosbarth yn gweithio'n agos gyda'r athrawon dosbarth ac asiantaethau allanol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial. Rydym yn parhau i weithredu cynllun Tric a Chlic, Safmeds, Dyfal Donc a Talkabout fel ymyrraethau i gefnogi a datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd ac emosiynol a chymdeithasol disgyblion.

**Cyfleoedd Cyfartal**
Credwn fod yr hawl gan bob unigolyn beth bynnag fo'i hil, ei gefndir, ei grefydd neu ei anabledd i dderbyn cyfle cyfartal yn yr ysgol hon. Ymfalchïwn ein bod yn ysgol sydd yn croesawu disgyblion, staff a rhieni o wahanol gefndiroedd cymdeithasol, hil, rhywedd, anabledd, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

**Cynllun Mynediad i'r Ysgol**
Fel ysgol 'rydym yn deall pwysigrwydd dysgu ac addysgu effeithiol sy'n sicrhau'r profiadau gorau i bob disgybl yn yr ysgol. 'Rydym yn sicrhau bod pob disgybl ag anabledd yn cael yr un profiadau â phawb arall yn yr ysgol. 'Rydym yn gwerthuso ein perfformiad yn gyson er mwyn sicrhau bod gofynion pob plentyn yn cael ei gyrraedd. Mae gan yr ysgol bolisi perthnasol a chynllun mynediad.

**Polisïau**
Mae'r ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso llwyddiant y strategaethau a ddefnyddir yn yr ysgol yn rheolaidd. Mae rhestr lawn o bolisïau'r ysgol ar gael yn yr ysgol. Os hoffech weld neu drafod unrhyw bolisi mae croeso i chi wneud apwyntiad i drafod hynny gyda'r pennaeth.

**Iechyd a Diogelwch**
Diogelir y drysau allanol trwy gael ffob arbennig i sicrhau mynediad. Mae pob ymwelydd yn mynd i swyddfa'r ysgol yn gyntaf ble y byddant yn arwyddo i mewn ac yn cael bathodyn ymwelydd.
Mae'r iard yn addas ar gyfer disgyblion ac oedolion ag anableddau. Mae polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gan yr ysgol er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i bawb o fewn yr ysgol.

**Toiledau**
Mae'r toiledau yn cyrraedd gofynion statudol.Maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Mae un toiled anabl. Os oes mater yn codi oherwydd glendid y toiledau bydd rhywun yn delio â'r mater cyn gynted â phosibl.

**Cynllun Brecwast Am Ddim Llywodraeth Cymru**

Mae'r Cynllun Brecwast a ariannir gan Lywodraeth Cymru yn mynd o nerth i nerth ac yn llawn o ran niferoedd. Pwrpas y cynllun yw rhoi brecwast i rai na fyddai yn cael hynny gartref.

**Pwyllgorau yr ysgol (2022-2023**)
Mae llais y plentyn yn bwysig iawn yn yr ysgol a gweithredir hynny trwy gyfrwng y grwpiau hyn:
Cyngor Ysgol
Grwp Eco
Grwp Ysgol Iach
Siarter Iaith